

Datganiad newyddion

Dyddiad: Dydd Mercher, 9 Awst 2017

Teitl: Boddhad myfyrwyr yng Nghymru yn 2017

Yn gyffredinol, mae boddhad myfyrwyr mewn prifysgolion a cholegau yng Nghymru yn parhau'n uchel, gydag 84% o fyfyrwyr yn dweud eu bod yn fodlon â'u cwrs, sy'n gyfartal â pherfformiad gweddill y DU.

Yn Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2017 fe wnaeth bron i dri chwarter o fyfyrwyr israddedig ar eu blwyddyn olaf yn dilyn cyrsiau gan ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru ymateb i'r arolwg blynyddol. Roedd arolwg eleni yn cynnwys cwestiynau newydd a thri maes newydd: cyfleoedd dysgu, y gymuned sy'n dysgu a llais y myfyriwr.

Dywedodd yr Athro David Blaney, Prif Weithredwr CCAUC: "Rydym yn falch bod lefelau bodlonrwydd cyffredinol yng Nghymru yn parhau'n uchel. Mae'r rhan fwyaf o brifysgolion Cymru wedi perfformio yn unol â'u meincnodau neu wedi rhagori arnynt. Mae Cymru wedi perfformio'n well na chyfartaledd y DU mewn chwech o'r un ar ddeg prif faes thematig – gan gynnwys un o feysydd newydd yr arolwg, 'Llais y Myfyriwr' – ac yr un fath â chyfartaledd y DU mewn dau faes arall.

Mae adroddiad diweddar yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch, [Adolygiadau o Addysg Uwch yng Nghymru: Canfyddiadau Allweddol 2010-16](#), yn tynnu sylw at addysg ardderchog a phrofiadau rhagorol myfyrwyr ar draws y sector Addysg Uwch yng Nghymru. Mae hyn yn brawf o'r gwerth mae ein darparwyr yn ei roi ar ragoriaeth ym maes addysgu, gwelliant parhaus i ansawdd ac amgylcheddau dysgu, a chyfathrebu ac ymgysylltu'n agos â'u myfyrwyr. Dylai myfyrwyr barhau i fod â hyder yng ngallu darparwyr Addysg Uwch yng Nghymru i gyflwyno addysg o safon uchel yn unol â'u disgwyliadau."

Meddai Amanda Wilkinson, Cyfarwyddwr Prifysgolion Cymru: “Mae canlyniadau’r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrrwyr yn brawf o’r gwaith caled y mae prifysgolion Cymru yn parhau i’w gyflawni er mwyn sicrhau’r profiad dysgu gorau posib i fyfyrwyr.

Mae’r canlyniadau hyn yn adlewyrchu’r broses ryngweithio gadarnhaol rhwng staff a myfyrwyr, ac rydym yn arbennig o falch o weld bod llais y myfyriwr wedi’i gynnwys yn yr arolwg eleni. Mae prifysgolion Cymru wirioneddol yn ystyried myfyrwyr fel partneriaid gweithredol yn y broses addysgu ac yn falch o fod yn arwain y gad o ran ymgorffori strwythurau llais myfyrwyr yn llwyr, fel y mae canlyniadau heddiw wedi’i brofi.

Bydd prifysgolion yng Nghymru hefyd yn parhau i groesawu myfyrwyr o bob cwr o’r byd. Mae myfyrwyr rhyngwladol ac o’r UE yn ein prifysgolion yn creu diwylliant amrywiol, sy’n edrych tuag allan, ac yn cyfoethogi profiad ein holl fyfyrwyr o fynd i’r brifysgol. Mae prifysgolion yng Nghymru wedi ymrwymo i adeiladu ar y canlyniadau hyn, gan gyflwyno dulliau dysgu ac addysgu ardderchog i holl fyfyrwyr Cymru, ni waeth eu dull, lle, na’r cyflymder maent yn astudio, ac rydym yn edrych ymlaen at barhau i weithio gyda’n myfyrwyr er mwyn sicrhau bod y blynyddoedd nesaf hyd yn oed yn fwy cadarnhaol.”

Canlyniadau Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrrwyr 2017: Data cymharol ar gyfer pob categori yn yr arolwg (AU ac AB yn gyfun)

Cwestiynau		2017 y DU % Bodlon	2017 Cymru % Bodlon
1-4	Yr addysgu ar fy nghwrs	85	84
5-7	Cyfleoedd dysgu **	84	83
8-11	Asesu ac adborth	73	74

Cwestiynau	2017 y DU % Bodlon	2017 Cymru % Bodlon
12-14 Cymorth academaidd	80	81
15-17 Trefn a rheolaeth	75	76
18-20 Adnoddau dysgu	85	85
21-22 Cymuned sy'n dysgu **	77	78
23-25 Llais y myfyriwr **	73	75
26 Undeb y Myfyrwyr	57	59
27 Bodlonrwydd cyffredinol	84	84
28-33 Lleoliadau ymarferol gyda'r GIG	87	86

* Cyfrifir y canran sy'n fodlon drwy gyfuno ymatebion 'cytuno'n gryf' a 'chytuno'n bennaf'.

** Adrannau newydd yn arolwg 2017.

Diwedd

Cyswllt:

Dale Hall

Ysgrifennydd y Cyngor

dale.hall@hefcw.ac.uk

029 2085 9665

Nodiadau:

1. Roedd Arolwg Cenedlaethol o Fyfirwyr 2017 yn cynnwys cwestiynau mewn tri maes thematig newydd: cyfleoedd dysgu, y gymuned sy'n dysgu a llais y myfyriwr. O ganlyniad i'r newidiadau i'r arolwg, nid yw'n ddilys cymharu ymatebion 2017 â rhai'r blynyddoedd blaenorol.
2. Mae'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfirwyr yn cynnwys bron yr holl israddedigion yn eu blwyddyn olaf o astudio ar gyfer cymwysterau addysg uwch gyda darparwyr Addysg Uwch a cholegau Addysg Bellach yng Nghymru, sefydliadau Addysg Uwch, colegau Addysg Bellach, a darparwyr eraill yn Lloegr, a sefydliadau Addysg Uwch yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban. Y trothwy ar gyfer cyhoeddi ar lefel cwrs yw o leiaf 10 myfyriwr, ac mae'n rhaid i'r rheini gynrychioli o leiaf hanner y myfyrrwyr sy'n gymwys i gymryd rhan.
3. Mae data bodlonrwydd myfyrrwyr ar gyfer y Brifysgol Agored yng Nghymru wedi'u cynnwys yn y ffigurau ar gyfer y Brifysgol Agored (er eu bod ledled y DU, maent wedi'u nodi fel 'Sefydliadau Addysg Uwch Lloegr').
4. Mwy ar wefan HEFCE: www.hefce.ac.uk/lt/nss/

Ynglŷn â CCAUC

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yw'r corff cyhoeddus sy'n eistedd rhwng prifysgolion a Llywodraeth Cymru.

Rydym yn rheoleiddio lefelau ffioedd mewn darparwyr addysg uwch (AU), yn sicrhau bod fframwaith mewn lle ar gyfer asesu ansawdd addysg uwch ac yn craffu ar berfformiad prifysgolion.

Rydym yn dosbarthu adnoddau ar gyfer addysgu ac ymchwil mewn addysg uwch, ac yn helpu Llywodraeth Cymru i gyflwyno eu blaenoriaethau ar gyfer addysg uwch er budd cymdeithas yn gyffredinol a'r economi. Gallwch ganfod mwy am ein gwaith yn www.hefcw.ac.uk.